

Y Rheolau a'r Rheoliadau

Drwy fynd i mewn i'r parc rydych yn cytuno i gadw at y rheolau a'r rheoliadau canlynol. Bydd methu â chydymffurfio yn golygu y gallech gael eich gwahardd o'r Parc a bod yn destun camau pellach gan gynnwys erlyn. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i'r Parc oni bai y nodir yn wahanol.

Diffiniadau

Mae "**Parc**" yn cyfeirio at Barc Gwledig Llyn Llech Owain, Parc Coetir y Mynydd Mawr, Parc Arfordirol y Mileniwm, Gelliwerdd, Allt Nant-y-ci, Iard Morlais a'r Palais.

Ystyr "**Cyngor**" yw Cyngor Sir Caerfyrddin.

- **Caniateir mynediad i bob un o'r lleoliadau a nodir yn ystod amseroedd agor a chau a hysbysebir yn unig. Mynediad olaf yw awr cyn cau. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad neu newid amseroedd mynediad heb rybudd.**
- **Ni fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol neu amhriodol tuag at ymwelwyr neu ein gweithwyr yn cael ei oddef**
- **Codir tâl am barcio fel y dangosir ar y bwrdd tariffau wrth fynedfa'r parc gwledig**
- **Rhaid i gŵn ac anifeiliaid fod o dan reolaeth lawn bob amser ac ni ddylent darfu ar unrhyw berson nac anifail. NI chaniateir cŵn mewn ardaloedd chwarae i blant.**
- **Baw Cŵn** Rhaid i berchnogion cŵn sicrhau bod yr holl faw cŵn yn cael ei godi
- Ni chaniateir **aros dros nos** mewn unrhyw leoliad a nodir
- **Sbwriel/Gwastraff** Rhaid ailgylchu'r holl sbwriel, ei roi mewn bin sbwriel neu fynd ag ef adref
- Ni chaniateir **tanau agored** mewn unrhyw leoliad
- Ni chaniateir **barbeciwiau**
- Fodd bynnag, caniateir defnyddio barbeciwiau tafladwy neu farbeciwiau nwy yn y Parc ar yr amod eu bod 300mm (1 droedfedd) oddi ar y llawr. Rhaid gwaredu lludw oer a gwlyb o'r lleoliad
- **Ysmygu gan gynnwys e-sigaréts.** Ni chaniateir hyn mewn unrhyw adeiladau yn y parc, mewn ardaloedd dim ysmygu a nodwyd neu mewn lleoedd chwarae i blant.
- **Gwarchod Anifeiliaid, Adar a Hela** mae'r **holl** fywyd gwyllt yn cael ei warchod gan y gyfraith ac ni ddylid aflonyddu arno na'i niweidio
- Ni chaniateir **Sioeau Cyhoeddus a Pherfformiad a Digwyddiadau** heb ganiatâd ysgrifenedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin
- Ni chaniateir **datgelu metel a chloddio** mewn unrhyw leoliad a nodir.
- **Symud unrhyw eitem** - ni ddylid symud unrhyw eitemau o unrhyw leoliad a nodir
- Ni chaniateir **dronau** ac awyrennau di-griw mewn unrhyw leoliad a nodir
- **Hysbysebu** - ni chaniateir unrhyw hysbysebu heb awdurdod yn y parc, ar y traeth nac ar y twyni
- Rhaid cadw bob amser at **y terfynau cyflymder sy'n cael eu dangos**
- Ni chaniateir **noethlymuniaeth** mewn unrhyw leoliad a nodir
- Mae'n ofynnol cael caniatâd ysgrifenedig gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer **ffilmio (heblaw at ddefnydd personol)**
- **Rhaid reidio beiciau** mewn modd diogel
- **E-feiciau - caniateir rhai hunan-yrru**
- **Ni chaniateir e-sgwteri na byrddau hofran**

- **Ni chaniateir unrhyw gerbyd modur trydan sy'n gallu mynd oddi ar y ffordd**
- Rhaid gyrru a pharcio **beiciau cwad, beiciau tair olwyn a beiciau modur sy'n gyfreithlon ar gyfer y ffordd** mewn ardaloedd cymeradwy yn unig
- Gwaherddir **beiciau modur, beiciau cwad a phob math o gerbyd oddi ar y ffordd arall** rhag defnyddio unrhyw ran o'r parc nad yw'n hygyrch i gerbydau modur cyffredin
- Nid yw'r uchod yn berthnasol i'r gwasanaethau brys na swyddogion y Cyngor.
- Ni chaniateir **masnachu (heb drwydded na phrydles)**
- Ni chaniateir **ceffylau na cheffyl a chart** mewn lleoliad a nodir
- Ni chaniateir **siglenni coed a strwythurau eraill yr ydych chi wedi eu creu**
- Ni ddylai **coed, llwyni a blodau** gael eu difrodi na'u symud o unrhyw lleoliad a nodir
- **Rhaid i ddefnydd un grŵp yn unig o gyfleusterau (sy'n cynnwys caeau agored a choetir) gael ei drefnu ymlaen llaw gyda'r Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored.** Rhaid i unigolyn dros 18 oed sy'n meddu ar gymwysterau addas oruchwylio unrhyw grŵp
- **Codi Arwyddion a Hysbysiadau** ni ddylid gosod unrhyw arwyddion yn unrhyw un o'r lleoliadau a nodir
- **Cyfarfodydd/casgliadau o bobl** ni chaniateir unrhyw gyfarfodydd na chasgliadau o bobl heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Sir Caerfyrddin
- **Cyfleusterau a Gweithgareddau** Os bydd digwyddiad yn cael ei ganslo **ni fydd** ffioedd parcio yn cael eu had-dalu, lle bo hynny'n berthnasol
- **Goruchwyliaeth** rhaid i bob ymwelydd ddilyn y cyfarwyddiadau a ddarperir gan staff neu hysbysiadau
- Rhaid rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored am **Argyfyngau, Damweiniau/Damweiniau a fu bron â digwydd**
- E-bostiwch infopembrey@sirgar.gov.uk

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid, addasu, ychwanegu at neu dynnu yn ôl y rheolau a'r rheoliadau hyn heb rybudd ymlaen llaw. Sganiwch y cod QR yma i gael rhagor o fanylion.

- **Cosbau** Bydd methu â chydymffurfio â'r rheolau hyn yn golygu y gellir gofyn i chi adael y Parc ar unwaith a gall olygu y gwrthodir mynediad yn y dyfodol. Yn achos deiliaid Hawlen Barcio Flynnyddol, gallai'r hawlen honno gael ei diddymu. Os oes angen, rhoddir gwybod i'r Heddlu ac os byddwch yn achosi difrod o unrhyw fath, bydd gofyn i chi dalu am y difrod ynghyd ag unrhyw gostau sy'n deillio o'r difrod neu sy'n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys unrhyw ffioedd gweinyddu a phroffesiynol fel costau cyfreithiol.